CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cynghorydd: **Llinos Medi** **Ward:** **Talybolion**
Grwp: **Plaid Cymru**

Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	*** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)**
Apeliadau (mynychu ar sail rota)	4
Sgriwtini Corfforaethol	6 (85%)
Cyngor	11 (84%)
Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	2 (50%)
* Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	

'Rwy'n cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar Fwrdd Trawsnewid Addysg.

'Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynchu 3 cyfarfod).

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y canlynol:
Grwp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon
Grwp Rhanddeiliaid y Safle Wylfa

Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Braint yw cael cynrychioli y ward Talybolion yn y Cyngor Sir. Mae wedi bod yn gyfnod prysur ers Mai diwethaf i ddod i adnabod fy rôl fel Cynghorydd Sir. 'Rwyf wedi derbyn nifer o alwadau ffôn ac ebyst gyda amrywiaeth o broblemau a pryderon ac 'rwyf wedi gwneud fy ngorau i ddelio gyda rhain yn effeithiol. 'Rwyf hefyd wedi cychwyn tudalen Facebook fel cynghorydd sy'n rhoi man cyswllt arall i drigolion Talybolion.

'Rwyf yn mynychu Cynghorau Cymdeithas yn Cylch y Garn, Llanfaethlu a Llanfwrog, Tref Alaw, Llanfachraeth, Bodedern, Llanfechell a Llanerchymedd. 'Rwyf hefyd yn aelod o Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanfechell ac Ysgol Gynradd Bodedern.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi cael fy newis fel Pencampwraig y Gofalwyr. Mae hon wedi bod yn swydd hynod o addysgol i mi, 'rwyf wedi bod yn ffodus o gael cwrdd a nifer o ofalwyr yma ym Môn. Mae rhoi statws i ofalwyr yma ym Môn yn bwysig iawn, a mae rhaid trio ein gorau i alluogi y pobl gwych hyn i gario 'mlaen a'u gwaith o ofalu yn di-dal am eu teulu, ffrindiau a cymdogion. Dyma gyfle i mi ddiolch i nhw am eu cyfraniad enfawr.

'Rwyf yn cyd-weithio gyda RVS i gychwyn clwb panad ym mhentref Bodedern gan obeithio i symud i bentref arall wedyn, clwb cymdeithasol i bobl gael sgwrs a panad ydi syniad hyn.

Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):	
Cyflwyniad i Gefnogaeth i Aelodau	Mai 2013
Fframwaith Moesegol	Mai 2013
Yr Iaith Gymraeg/Diogelu Data/ Y Wasg a'r Cyfryngau	Mai 2013
Hyfforddiant ar y Gofrestr Diddordebau	Mai 2013
Trosolwg o Swyddogaethau Sgriwtini	Mehefin 2013
Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol	Mehefin 2013
Gwneud Mwy o Wahaniaeth Mewn Sgriwtini	Mehefin 2013
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb	Medi 2013
Hyfforddiant i'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol	Medi 2013
Hyddorddiant ar Adolygiadau Datblygiad Personol	Hydref 2013
Sgriwtineiddio'r Gyllideb	Hydref 2013
Hyffordiant PINS	Tachwedd 2013
Cyflwyniad Cyffredinol i Gynllunio	Rhagfyr 2013

Gweithgareddau a Materion Eraill

Cefais y fraint o gael fy ngwahodd i noson chwaraeon Llanfairynghornwy, dyma noson gymdeithasol wych gyda pob oed yn cymryd rhan.

Hefyd cefais fynychu Ffair Mechell yn ystod yr haf lle cafwyd amrywiaeth o gystadlaethau, a braf gweld fy nghyd cynghorwr Ken Hughes yn cyfrannu at y gystadleuaeth llysiau.

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws **Ebrill 2014**